# Crynodeb o'r Cyfarfod

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Fforwm Mynediad Cenedlaethol (Cyfarfod 62)** | | |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 6 Rhagfyr 2018<br>10.30am – 1pm | **Lleoliad:** | Canolfan Addysg Parc Biwt, Caerdydd, CF10 3DX |
| **Yn bresennol:** | Howard Davies (Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru), Carys Drew (Ysgrifenyddiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru), Keith Jones (Angling Cymru), Mark Weston (Cymdeithas Ceffylau Prydain), Steve Rayner (Canŵ Cymru a Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru), Stuart France (Cyngor Ogofa Cymru), Rachel Evans (y Gynghrair Cefn Gwlad), Charles de Winton (CLA Cymru), Arthur Lee (y Cerddwyr Anabl), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru), Ceri Davies (Glandŵr Cymru), Ruth Rourke (Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad), Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru), Jonathan Hughes (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Beverley Penney (y Gymdeithas Mannau Agored), Rebecca Brough (y Cerddwyr), Gwyn Smith (Sustrans), Mark Stafford-Tolley (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Sarah Smith (Llywodraeth Cymru), Rowland Pittard (Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid), Nicola Rimington (Cyfoeth Naturiol Cymru), Joe Roberts (Cyfoeth Naturiol Cymru), Jont Bulbeck (Cyfoeth Naturiol Cymru) | | |
| **Sylwedyddion:** | Gary Davies (Angling Cymru), Chris Dale (Fforwm Mynediad Lleol Abertawe), Bob Denley (y Cerddwyr), Paula Renzel (y Cerddwyr), Robin Simpson (Fforwm Mynediad Lleol Caerdydd), Gilian Otlet (WG) | | |
| **Ymddiheuriadau:** | Elfyn Jones (Cyngor Mynydda Prydain), Neil Buffery (Cymdeithas Yrru Prydain), Chris Tomley / Duncan Green (Cymdeithas Mynediad Tir a Hamdden), John Morgan (Fforymau Mynediad Lleol Cymru), Richard Ball / Anthony Richards / Peter Rutherford (Parciau Cenedlaethol Cymru), Steven Morgan (Chwaraeon Cymru), Kerry Thatcher (Croeso Cymru) | | |

| Rhif yr eitem: | Eitem | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso ac ymddiheuriadau**<br><br>Gwnaeth Howard Davies groesawu pawb i'r cyfarfod ac atgoffa pawb fod croeso iddynt gyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg, beth bynnag oedd orau ganddynt.  Mae Howard wedi derbyn cyfrifoldebau'r cadeirydd oddi wrth Ruth Hall, a nodwyd ganddo ei bod wedi gwneud gwaith gwych wrth gyflawni'r rôl dros nifer o flynyddoedd.<br><br>Roedd yr holl gamau gweithredu a oedd yn weddill o gyfarfodydd | |

blaenorol wedi cael eu cwblhau.

**O ran 'Cam Gweithredu 59.1:** *Yr ysgrifenyddiaeth i gysylltu â Llywodraeth Cymru i wahodd Hannah Blythyn AC, Gweinidog yr Amgylchedd, i gyfarfod yn y dyfodol'.*Gwahoddwyd y Gweinidog i fynychu'r cyfarfod hwn ond gwrthododd y gwahoddiad yn sgil newid disgwyliedig mewn Prif Weinidog. Bydd Carys Drew yn cysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn trefnu amser priodol i fynychu cyfarfod yn y dyfodol. CD

## 2. Cynlluniau Rheoli Traethlin a rheoli mynediad

Trosolwg o Gynlluniau Rheoli Traethlin a sut y maent yn effeithio ar fynediad gan Nicola Rimington, Uwch-wyddonydd Ffisegol Morol ac Arfordirol

Gwnaeth Nicola Rimington ddarparu cyflwyniad i'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Rheoli Traethlin. Gwnaeth hi nodi diffiniad Cynllun Rheoli Traethlin 2005 Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel a ganlyn:

'*dogfen (anstatudol) sy'n darparu asesiad mawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol ac sy'n cyflwyno fframwaith polisi i <u>leihau'r risgiau hyn</u> i bobl a'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol <u>mewn modd cynaliadwy</u>*'

Nododd Nicola mai'r Cynlluniau Rheoli Traethlin cyfredol yw'r ail rownd o gynlluniau; datblygwyd y rhai cyntaf ar ddechrau'r 2000au. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn nodi fframwaith a phroses ar gyfer rheoli'r arfordir ac arfordir awdurdodau cyfagos, e.e. o ran drifft y glannau ac er mwyn osgoi canlyniadau na fwriadwyd. Mae'r rownd gyfredol o Gynlluniau Rheoli Traethlin wedi cael ei datblygu yn dilyn canllawiau manwl DEFRA gyda mwy o ffocws ar y dyfodol, cynllunio hirdymor, a mabwysiadu'r dull gweithredu cywir gydag asesiad amgylcheddol a materion eraill. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn gynlluniau 100 mlynedd gyda thri chyfnod: 0-20 mlynedd (2005-2025), 20-50 mlynedd (2025-2055), 50-100 mlynedd (2055-2105).

Er bod canllawiau manwl, maent i gyd ychydig yn wahanol. Gwnaeth Nicola rannu darnau o'r cynlluniau i alluogi pobl i weld sut olwg sydd ar Gynllun Rheoli Traethlin a'r math o wybodaeth a thystiolaeth maent yn eu cynnwys. Dylai'r cynlluniau lywio penderfyniadau cynllunio a thrwyddedu morol.

Mae pedwar Cynllun Rheoli Traethlin sy'n berthnasol i Gymru, a ddatblygwyd gan grwpiau arfordirol a'u rhoi ar-lein ar eu gwefannau priodol.

Gwnaeth Nicola nodi pam fod angen Cynlluniau Rheoli Traethlin, a ddangoswyd gan adroddiadau yn dilyn difrod gan stormydd a chost atgyweiriadau yn dilyn stormydd y gaeaf yn 2013/14. Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru lunio adroddiad gyda chyfraniadau gan nifer o

sefydliadau eraill lle y nododd fod 70 lleoliad ar Lwybr Arfordir Cymru wedi cael eu difrodi yn ystod y cyfnod hwn gyda chost amcangyfrifedig o £340,000 i atgyweirio’r difrod. Gan gydnabod ei fod yn ased pwysig, mae'r adroddiad yn nodi'r heriau o reoli llwybr o'r fath mewn amgylchedd arfordirol dynamig.

Daeth Nicola â'i chyflwyniad i ben drwy nodi er bod Cynlluniau Rheoli Traethlin yn ddechreuad da, mae mwy i'w wneud i'w gwella. Er enghraifft, o ran mynediad cyhoeddus, nid oedd goblygiadau Deddf Priffyrdd 1980 yn cael eu deall yn dda pan oedd y Cynlluniau Rheoli Traethlin yn cael eu datblygu. Bellach mae mwy o gydnabyddiaeth ei fod yn faes anodd i ymdrin ag ef ac mae'n gromlin ddysgu ar gyfer peirianwyr arfordirol. Awgrymodd fod angen cynllunio a gweithio gyda rhanddeiliaid ac anelu at atebion mynediad y mae rhanddeiliaid yn fodlon â nhw ac sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Gwnaeth hi gloi drwy holi'r cwestiwn a ddylai Deddf Priffyrdd 1980 gael ei diwygio er mwyn caniatáu newidiadau i hawliau tramwy cyhoeddus fel rhan o waith integredig rheoli newid arfordirol.

**Pwyntiau trafod:**

- Mae 'cilio a reolir' ac 'adlinio a reolir' yr un peth ond mae'r canllawiau diweddaraf gan DEFRA yn cyfeirio at 'adlinio a reolir'. Yn ymarferol, gallai olygu cilio, ond, er enghraifft mewn systemau twyni tywod, gallai mesurau rheoli fod ynghlwm.
- Gall ffermdir ar dir isel fod yn bwysig ar gyfer ffermio a busnes.
- O ran cyfranogiad y cyhoedd yn y broses Cynllun Rheoli Traethlin, roedd cwestiwn a fyddai rôl bosibl i Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru helpu gydag ymgysylltu ar lefel uchel.
- Mae Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru wedi'i gadeirio gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac mae hyn yn cynrychioli llwybr defnyddiol ar gyfer ymgysylltu â Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru.
- Awgrymwyd bod pobl yn edrych ar y Cynlluniau Rheoli Traethlin a'r darnau o'r arfordir lle y bydd newid mewn polisi cyn bo hir (h.y. rhwng Cyfnod 1 a 2).
- Nodwyd bod yr awdurdod priffyrdd lleol yn cael ei roi mewn sefyllfa anodd iawn o ran ei rôl wrth ddiogelu mynediad cyhoeddus, ac nid oes ganddo fecanwaith i ddod o hyd i ateb – awgrymwyd bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried newid deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â hyn.

## 3. Datganiadau Sefyllfa Hamdden, Mynediad, Addysg, Cymuned ac Adfywio Cyfoeth Naturiol Cymru

Diweddariad a chyfle i gyfrannu at ddatblygiad ail gam y Datganiadau Sefyllfa gan Joe Roberts, Cyfoeth Naturiol Cymru

Gwnaeth Joe Roberts ddiolch i'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol am y

sylwadau defnyddiol roedd yr aelodau wedi'u darparu i gam peilot y Datganiadau Sefyllfa, ac mae'r rhain bellach yn cael eu defnyddio ac ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.  Yna gwnaeth rannu cyflwyniad i adolygu'r sail ar gyfer datblygu Datganiadau Sefyllfa a cham nesaf y gwaith hwn.

Diben y Datganiadau Sefyllfa yw:

- Ffurfioli dull gweithredu safonol ar draws holl safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cefnogi rheolwyr tir Cyfoeth Naturiol Cymru
- Lleihau'r angen i ymateb i geisiadau ffurfiol am wybodaeth oddi wrth y cyhoedd
- Rhannu materion allweddol â phartneriaid
- Helpu cyfeirio partïon sydd â diddordeb at y system ganiatadau ar-lein (sydd wrthi'n cael ei datblygu*)*

Mae Datganiadau Sefyllfa yn eistedd rhwng canllawiau allanol a mewnol a chanllawiau hygyrch a thechnegol.

Rhoddwyd hierarchaeth i destunau ar gyfer Datganiadau Sefyllfa o ran y drefn y byddent yn cael eu llunio.  Mae ail gam Datganiadau Sefyllfa yn cwmpasu'r gweithgareddau canlynol:

- Rhedeg a cherdded
- Tanau agored a thanau gwyllt
- Datguddio metel
- Panio am aur
- Gwersylla a gwersylla mewn cerbydau
- Dringo creigiau a dringo yn ystod y gaeaf
- Awyrennau di-beilot

Aeth Joe drwy rai o'r pryderon allweddol a godwyd hyd yn hyn a gwnaeth yr aelodau'n ymwybodol y byddai croeso mawr i adborth gan aelodau'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol a rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol eraill fel rhan o ymgynghoriad a dargedwyd.

**Cam Gweithredu 62.1:** Cyhoeddi'r ymgynghoriad ar y Datganiadau Sefyllfa i aelodau Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru a chael ymateb gan aelodau Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru.

**Pwyntiau trafod:**

- Mae'n bwysig ystyried y bydd y sefyllfa a gymerir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael effaith ar dirfeddianwyr cyfagos. Byddai'n fuddiol ystyried y materion sydd dan sylw drwy lens ychydig yn ehangach.
- Dylid ystyried mynediad i'r anabl (anableddau meddyliol a chorfforol).  Trafodwyd a ddylai fod Datganiad Sefyllfa penodol ar hyn neu a ddylai'r mynediad lleiaf rhwystrol gael ei ystyried

fel rhan o bob Datganiad Sefyllfa.
- Mae cyfeiriadau at wasanaethau masnachol mewn Datganiadau Sefyllfa mewn perthynas â ph'un ai bod rheolwyr tir eisiau perthynas fwy ffurfiol â defnyddwyr masnachol.
- Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru angen neu'n dymuno i ddefnyddwyr ofyn am ganiatâd pan fo defnydd dilys presennol.
- Mae'r rheolau ond cystal â'r gwaith gorfodi.  Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ddangos polisi a dal pobl nad ydynt yn glynu at y polisi, gan gynnwys y tu allan i oriau gwaith arferol. Dylai fod prosesau i weld a ydynt yn gweithio yn ymarferol.
- Dylai digwyddiadau mawr gyfrannu at gynnal a chadw seilwaith neu ddifrod a achosir oherwydd y digwyddiad.
- Nid yw Datganiadau Sefyllfa yn ymyrraeth reoli ond yn hytrach yn fecanwaith ar gyfer dulliau gweithredu cyson.
- Mae angen diffinio 'masnachol' a sut y bydd yn gweithio yn ymarferol a'r rhyngwyneb rhwng gweithgaredd masnachol ac addysg awyr agored.
- Bydd adborth ar y Datganiadau Sefyllfa yn cael ei fwydo yn ôl i'r gweithgor a bydd angen iddo adlewyrchu'r ffordd y gall Cyfoeth Naturiol Cymru reoli.  Bydd y datganiadau yn fyw am flwyddyn er mwyn ystyried yr adborth a dderbyniwyd ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.
- O ran rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae hyn yn effeithio ar dirfeddianwyr preifat yn ogystal â Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae o fudd cael negeseuon allweddol cyson i'w rhannu.  Nodwyd bod materion yn symptom o bethau eraill a chyd-destun rheoli nwyddau cyhoeddus o fewn y system cymorth amaethyddol.

---

## 4. Ogofa: Y Byd o dan ein Byd

Stuart France, Cyngor Ogofa Cymru

Gwnaeth Stuart France gyflwyniad ffotograffig a oedd yn dangos diddordeb a phrofiad ogofa.

Ers cyfnod maith, mae ogofâu wedi cael eu hystyried fel mannau arbennig – am resymau crefyddol a diwylliannol, ar gyfer lloches a diogelwch, a hyd yn oed cyfrinachedd.  Mae ogofâu wedi ysbrydoli celf yn yr henfyd ac yn ein cyfnod ein hunain.  Mae bywyd gwyllt sydd o dan fygythiad hefyd yn dibynnu ar ogofâu i oroesi.  Mae ogofâu yn cadw tystiolaeth wyddonol werthfawr o'r gorffennol.  Felly mae eu darganfod, eu harchwilio a'u cadw oll yn cydblethu.

Gwnaeth Stuart rannu gwybodaeth ynglŷn ag amrywiaeth o themâu ogofa. Tynnodd sylw at ryfeddodau daearegol a manteision cadwraeth, mapio manwl, cynllunio gweithgareddau a materion iechyd a diogelwch a oedd yn pwysleisio lefel uchel o arbenigedd ac ymrwymiad gan ogofäwyr ar gyfer mynediad cyfrifol.

Rhoddwyd enghreifftiau o'r dulliau gweithredu gwahanol gan reolwyr

tir ar draws rhannau eraill o'r DU i reoli mynedfeydd ogofâu. Gwnaeth Stuart esbonio'r heriau o ran safbwyntiau amrywiol ynglŷn ag a oes gan ogofäwyr hawl i gael mynediad o dan ddeddfwriaeth bresennol. Mae Cymdeithas Ogofa Prydain a Chyngor Ogofa Cymru yn dehongli bod Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a Deddf Tir ac Eiddo 1925 yn rhoi hawl mynediad iddynt ar gyfer ogofa. Mae cyrff y llywodraeth, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dehongli nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn darparu hawl mynediad ar gyfer ogofa.

Aeth Stuart yn ei flaen i rannu enghreifftiau o amddiffynfeydd milwrol hanesyddol a bynceri cyfrinachol y gellir eu harchwilio gan ogofäwyr, sy'n cynnig diddordeb pellach ac elfennau hanesyddol. Siaradodd am sut y mae grwpiau masnachol wedi dechrau darparu profiadau ar gyfer pobl sy'n dymuno rhoi cynnig ar ogofa yn ogystal â chyfleoedd addysgol.

Daeth Stuart i ben drwy rannu organogram o sut mae ogofa yn cael ei drefnu yng Nghymru a'r rhanddeiliaid amrywiol. Cyngor Ogofa Cymru yw'r corff cynrychioliadol ar gyfer ogofa yng Nghymru ac rydym hefyd yn rhan o Gymdeithas Ogofa Prydain, sy'n cwmpasu Ynysoedd Prydain.

**Pwyntiau trafod:**

- Gwnaeth y cyflwyniad ddarparu mewnwelediad gwerthfawr i fyd ogofa.
- O ran nifer y cyfranogwyr yng Nghymru, awgrymodd Stuart fod tua 6,000 o aelodau wedi tanysgrifio i Gymdeithas Ogofa Prydain ac mae tua 1,000 o ogofäwyr gweithredol yng Nghymru.
- Roedd ogofa yn arfer bod yn weithgaredd poblogaidd ar gyfer undebau myfyrwyr ond nid yw hyn yn cael ei ganiatáu bellach oni bai ei fod yn cael ei arwain gan swyddogion proffesiynol.
- Pwysigrwydd cael perthynas dda â’r tirfeddiannydd.
- Nododd Jont Bulbeck fod yr unig beth oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi’i wneud oedd rhoi ei ddehongliad o hawliau mynediad ogofa o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a’r Ddeddf Cyfraith Eiddo. Nododd Jont mai dyma yw ein dehongliad hirdymor, ac nid yr hyn rydym yn ei ffafrio, ac nid yw wedi'i bennu gan faterion cadwraeth. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried y mater gyda DEFRA a Lloegr Naturiol ac maent wedi dod i’r un casgliad yn fras.

## 5. Cylch Gorchwyl a Hysbysiad Preifatrwydd

**Cylch Gorchwyl**

Gwnaeth Carys Drew gynghori bod y cylch gorchwyl ar gyfer y fforwm wedi dyddio. Roedd hi wedi defnyddio cylch gorchwyl 2001 fel y sail ar gyfer llunio drafft wedi'i ddiweddaru. Bydd Carys yn rhannu'r drafft ar gyfer sylwadau dros e-bost a byddai'n ddiolchgar am sylwadau ac

adborth arnynt o safbwynt yr aelodau.  Mae croeso i'r aelodau ddarparu sylwadau a meddyliau mwy cyffredinol am y fforwm hefyd.

**Pwyntiau trafod:**

- Trafodwyd gwerth y fforwm o safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau sy'n aelodau.
- Defnyddioldeb trafodaethau o fewn y fforwm rhwng aelodau sy'n cynrychioli sefydliadau eraill.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio hwyluso cydweithio a gwnaed ymgais i gofnodi'r ymdeimlad o hyn yn y drafft a ddiwygiwyd. Byddai awgrymiadau ar gyfer mireinio pellach yn ddefnyddiol.

**Cam Gweithredu 62.2:**  Carys Drew i rannu'r cylch gorchwyl drafft â'r aelodau a chynnwys dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau.  Yr aelodau i ddarparu adborth ar y cylch gorchwyl a darparu unrhyw sylwadau perthnasol eraill. Carys Drew i ddod â'r cylch gorchwyl diwygiedig i gyfarfod nesaf y fforwm.

**Hysbysiad Preifatrwydd**
Mae Hysbysiad Preifatrwydd wedi cael ei baratoi ar gyfer Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru a chafodd hwn ei rannu â'r aelodau. Mae hyn yn unol â’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i nodi'n glir y ffordd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chadw am gynrychiolwyr sy'n aelodau. Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 6. Cyfraniadau gan bawb

Roedd nifer o aelodau wedi cyflwyno cyfraniadau ysgrifenedig a gafodd eu casglu a'u cylchredeg.

Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad: nododd Ruth Rourke fod newidiadau staff yn digwydd ac y byddai diweddariad ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad: nodwyd bod gwaith diweddar wedi canolbwyntio ar ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru *'Brexit a'n Tir'* a materion cysylltiedig.

Y Cerddwyr: mae Cyngor y Cerddwyr wedi gwneud penderfyniad ar sefyllfa Cwm Ivy.  Mae’r Cerddwyr wedi ennill y cynnig i ddarparu digwyddiad cerdded cenedlaethol saith diwrnod ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn 2019. Bydd y digwyddiad, sy'n dilyn thema 'Blwyddyn Darganfod' 2019 Croeso Cymru, yn cynnwys hyd at saith taith gerdded arfordirol mewn saith lleoliad, o'r gogledd-ddwyrain i'r de-ddwyrain, dros y tri phenwythnos cyntaf

ym mis Mai.

Sustrans: nododd Gwyn Smith fod Sustrans wedi cynnal adolygiad o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, 'Llwybrau i Bawb', a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella.  Roedd naw prosiect peilot yn cael eu cynnal, ac roedd rhai ohonynt yn mynd rhagddynt yn dda.

Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid: nododd Rowland Pittard fod Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid wedi bod yn cymryd diddordeb mewn Teithio Llesol a nododd fod Trafnidiaeth Cymru bellach yn cymryd rhan, ac roedd rhai aelodau o staff awdurdod lleol wedi symud i'r sefydliad hwnnw. Byddai'n ddefnyddiol cael rhyngwyneb â Theithio Llesol a deall beth sy'n digwydd. Awgrymodd Rowland chwilio am lefarydd priodol ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.
Gofynnodd Rowland a oes gan y Weinyddiaeth Amddiffyn fforwm mynediad ac awgrymodd y byddai'n dda o beth cysylltu.

**Cam Gweithredu 62.3:** Carys Drew i chwilio am lefarydd priodol yn gysylltiedig â Theithio Llesol ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu 62.4:** Carys Drew i gysylltu â chysylltiadau yn y Weinyddiaeth Amddiffyn o ran bod yn bresennol yn Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru.

Llywodraeth Cymru: dywedodd Sarah Smith eu bod yn disgwyl cyhoeddi datganiad ysgrifenedig o ran elfennau mynediad *Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy* yn y flwyddyn newydd.  Byddai'r amseriad yn dibynnu ar b'un a oedd unrhyw newid o ran y Gweinidog.

Y Gynghrair Cefn Gwlad: gwnaeth Rachel Evans dynnu sylw at y gwaith sy'n parhau ar gyfer iechyd a llesiant.  Nododd fod 'Pysgota ar gyfer ysgolion' yn derbyn traean o'i geisiadau o Gymru.

Daeth Howard Davies â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r holl siaradwyr, a nododd nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys sut y mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn ymgysylltu â Fforwm Grwpiau Arfordir Cymru.  Yna gofynnodd a oedd unrhyw rai o'r sylwedyddion yn dymuno siarad.

## 7. Sylwadau oddi wrth sylwedyddion

Roedd Bob Denley, Cerddwyr Abertawe, wedi mynychu oherwydd ei ddiddordeb yn yr eitem ar Gynlluniau Rheoli Traethlin.  Nododd y pwynt yn y cyflwyniad ynglŷn â'r gwrthdaro rhwng y Ddeddf Priffyrdd a chynnal amddiffynfeydd

arfordirol.  Mae enghraifft leol o hyn sy'n parhau yng Nghwm Ivy, lle y bo'r hawl mynediad cyhoeddus yn ymestyn ar hyd y morglawdd sydd bellach wedi torri.  Gwnaeth Bob Denley amlinellu'r cefndir i hyn a materion sy'n parhau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gwnaeth Howard Davies ddiolch i Bob am godi'r mater ac awgrymodd y gallai siarad ymhellach â Jont Bulbeck.  Roedd Nicola Rimington wedi rhoi sylw i'r pwynt nad oedd y materion mynediad wedi cael eu deall yn dda, ac roedd yr enghraifft hon wedi tynnu sylw at y mater ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Gwnaeth Jont Bulbeck gydnabod anhawster y sefyllfa a'r tensiynau rhwng rheoli traethlin a hawliau mynediad. Cytunodd drafod y mater ymhellach â Bob Denley.

---

## 8. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

- ~~5 Mawrth 2019 – Gogledd Cymru (lleoliad i'w gadarnhau) –~~
- *Nodyn ôl-gyfarfod:  cynhelir y cyfarfod nesaf ym Mhrifysgol Bangor ar 4 Ebrill 2019.*
- 2 Gorffennaf 2019 – Canolbarth Cymru (lleoliad i'w gadarnhau)
- 5 Tachwedd 2019 – De Cymru (lleoliad i'w gadarnhau)

---